LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Mae'r fersiwn digidol hwn o'r erthygl/cylchgrawn wedi'i greu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

NODER y gall cyfyngiadau hawlfraint ac amodau trwydded fod yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **Mwy o Wybodaeth** wrth ddarllen y cylchgrawn ar wefan Cylchgronau Cymru (cylchgronau.llyfrgell.cymru).

Efallai y bydd hefyd gennych ddiddordeb yn Papurau Newydd Cymru (papuraunewydd.llyfrgell.cymru), chwaer-wefan gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n rhoi mynediad i dros 1.1 milwn o dudalennau o dros 130 o bapurau newydd a gyhoeddwyd rhwng 1805 a 1919.

This digital version of the article/journal has been created by The National Library of Wales.

PLEASE NOTE that copyright restrictions and license terms may apply. For more information, view **More Information** when reading the journal on the Welsh Journals (journals.library.wales) website.

You may also be interested in Welsh Newspapers (newspapers.library.wales), a sister-site from the National Library of Wales that gives access to over 1.1 million pages from over 130 newspapers published between 1805 and 1919.

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

## *Yr Ugeinfed Ganrif yn Ne Ceredigion*

Fel yr ydym yn clywed yn fynych iawn erbyn hyn mae cyflwr ein heglwysi mewn pob math o drafferthion ac anobaith yn rheoli'r dydd. Clywn fod capeli yn cau ymhob rhan o'r wlad, y cynulleidfaoedd yn lleihau yn frawychus ac ysbryd o anobaith a difaterwch yn ffynnu. Yr archfarchnad a'r arwerthiannau cist car sydd bellach yn tynnu tyrfaoedd i addoli wrth allor siopa bob Sul, a chyda phob math o adloniant ar gael heb adael y tŷ, mae bywyd wedi newid. Ni ellir meddwl erbyn hyn fod y patrwm o addoldai a sefydlwyd yn arbennig yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg i barhau am lawer rhagor ac mae cau nifer helaeth o gapeli yn anorfod. Pan sefydlwyd y rhan fwyaf o gapeli, yn enwedig yng nghefn gwlad, yr oedd yn bwysig fod yr addoldai hynny o fewn cyrraedd i'r bobl a gerddai i'r gwasanaethau. Erbyn heddiw ychydig iawn sydd yn cerdded i gapel ac mae paratoi lle addas i barcio ceir yn fwy pwysig na dim. Wrth gwrs gyda chyfran fawr o'r boblogaeth yn berchen ar gar, mae y Sul erbyn hyn yn achlysur i grwydro'r wlad yn hytrach na threulio tipyn o amser mewn oedfa.

Fel hanesydd cymdeithasol ac ysgrifennydd eglwys Bresbyteraidd, teimlaf ei bod yn rhan o'm dyletswydd ar ddechrau canrif a milflwydd newydd i edrych ar ein sefyllfa yng ngolau hanes, gan obeithio fod yn fy sylwadau ryw ronyn o obaith am well dyfodol. Yn sicr, ni ellir galw ddoe yn ôl ond dymuna llawer ohonom weld nifer o'n haddoldai yn gweithredu o leiaf fel canolfannau diwylliant a chymdeithas unwaith eto.

Mae'r sefyllfa ar ddechrau yr unfed ganrif ar hugain yn dra gwahanol i'r hyn oedd yn nechrau'r ugeinfed. Yn 1900 yr oedd gan y Methodistiaid Calfinaidd gymaint â 1,363 o gapeli yng Nghymru gydag aelodaeth o 158,111. Dilynwyd hwy yn agos gan yr Annibynwyr yn cynnal 1,261 capel ac aelodaeth o 144,000, gyda 106,000 yn

mynychu capeli'r Bedyddwyr. Yn 1900 gellir dweud fod o leiaf hanner poblogaeth Cymru yn aelodau o eglwys. Yn Henaduriaeth De Aberteifi yr oedd 50 capel gyda nifer o ganghennau ac aelodaeth gyflawn o dros 14,000. Yn ychwanegol, yr oedd tua'r un nifer o wrandawyr nad oeddent yn aelodau ffurfiol yn mynychu gwasanaethau. Heddiw mae gennym 39 capel o hyd, ond nid yw aelodaeth yn gyfan gwbl yn fwy na 2,000 o bobl. Yn 1900 yr oedd bron pob eglwys yn yr Henaduriaeth dan ofal bugail; heddiw dim ond pedwar person sydd yn y weinidogaeth lawn amser rhwng Tregaron ac Aberteifi. Gyda'r nifer o bregethwyr cynorthwyol o safon wedi lleihau yn ddirfawr, mae'n mynd yn anoddach o Sul i Sul i lenwi pulpud.

O edrych ar hanes Presbyteriaid De Ceredigion yn yr ugeinfed ganrif, gellir rhannu ein hanes i ryw bedwar cyfnod:

1. Cyfnod **Brwdfrydedd** crefyddol tan tua 1914
2. Cyfnod **Llewyrch tan** tua 1955
3. Cyfnod **Ysgrifen ar y Mur** 1955 tan tua 1970
4. Cyfnod **Difaterwch** 1970 i ddiwedd y ganrif

## BRWDFRYDEDD CREFYDDOL

O ddechrau chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd yng Nghymru frwdfrydedd rhyfedd tuag at grefydd a chapel. Er bod y patrwm o addoldai wedi eu sefydlu cyn troad y ganrif, gwelwyd adnewyddu nifer fawr o gapeli ac ymestyn eraill i ateb gofynion y cynulleidfaoedd helaeth. Dyma gyfnod y capel rhwysgfawr gydag amryw o adeiladau di-nod yn ymdebygu i eglwys gadeiriol. Er enghraifft, ym 1902 estynnwyd Tabernacl, Aberteifi, a chapel Annibynnol Glynarthen yn 1901. Adnewyddwyd ac estynnwyd Hen Gapel Aberporth yn 1901 i ddilyn Brynmair a adnewyddwyd ychydig cyn hynny. Cymaint oedd brwdfrydedd aelodau eglwys dros yr achos fel bod rhaid cael rheolau caeth i ddewis eisteddleoedd ar y Sul. Er enghraifft, ym Mhenmorfa deddfwyd

> *Fod i'r rhai a gyfrannodd y swm mwyaf i gael dewis eu heisteddleoedd. Os bydd dadl rhwng dau am eisteddle a'r ddau wedi rhoi yn gyfartal, mae hynny i'w benderfynu drwy fwrw coelbren . . . Os bydd eisteddle yn wag caniateir i ddieithriaid ei defnyddio os na fydd y perchnogion yno pan fydd pregethwr yn darllen ei destun.*

Yn negawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd Penmorfa a Bancyfelin yn barod i alw gweinidog llawn amser ym mherson y Parchedig Daniel Lewis. Tan hynny dibynnai'r ddwy eglwys ar wasanaeth nifer fawr o bregethwyr teithiol a lleyg. Nid oedd yn broblem i lanw pulpud ar y Sul. Mewn llawer i gapel fel Penmorfa

byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal o saith o'r gloch yn y bore tan yr Ysgol Gân ar ôl oedfa'r nos. Ffynnai'r Ysgol Sul i blant ac oedolion ymhob capel. Yn 1900, er enghraifft, yr oedd gan yr ysgol ym Mhenmorfa 205 o ddisgyblion; Twrgwyn, Rhydlewis 185; Tabernacl, Aberteifi 243 a Thabernacl Ceinewydd 440 o ddisgyblion.

Yr oedd y Methodistiaid yn fwy na pharod i anfon cenhadon dros y môr, yn fwyaf arbennig i Fryniau Casia yn yr India. Yma sefydlwyd ysgolion ac ysbytai ynghyd â chapeli. Yr oedd aelodau pob capel yng nghefn gwlad yn cyfrannu yn helaeth at y genhadaeth; disgwylid i blant lenwi y blychau cenhadol a disgwylid i hen wragedd pob capel gyfrannu eu ceiniogau prin i achos 'Yr Athro Brodorol'. Parhaodd y cysylltiad clòs yma rhwng cefn gwlad Cymru ac Assam bell tan 1969.

Yr oedd rhai pethau digon atgas a chreulon yn rhai o reolau caeth y Calfiniaid, yn enwedig ym myd moesoldeb. Yr oedd beichiogi plentyn heb briodi yn arwain yn ddi-ffael at golli aelodaeth gyda gweinidog a blaenoriaid yn cystwyo a phregethu yn llym am drosedd o'r fath. Roedd diodydd meddwol hefyd dan y lach a rhaid oedd i bob blaenor ac yn wir bob plentyn arwyddo llw o lwyrymwrthod.

Gyda dyfodiad y Parch. John Green yn weinidog i Dwrgwyn a Salem yn 1903 a Cranogwen yn taranu yn erbyn y ddiod ym Mancyfelin, yr oedd dylanwad y capel ar fywyd ei aelodau yn drwm. Ers 1886, yr oedd pob tafarn yng Nghymru yng nghau ar y Sul (a hynny tan 1986) ac yr oedd Cyfarfodydd Dirwest yn ffynnu. Penllanw'r holl frwdfrydedd oedd diwygiad 1904 a chwythodd dros y wlad fel corwynt nerthol. Yr oedd dylanwad y diwygiad hwnnw i barhau am beth amser yng Nghymru.

## LLEWYRCH

Tan yr ail Ryfel Byd yr oedd capeli cefn gwlad Cymru yn ddigon llewyrchus, yn hwylio ymlaen yn ddigon cyfforddus heb fawr ddim i darfu ar yr heddwch. Mewn bro Gymraeg fel Penmorfa, yr oedd yn anodd meddwl am unrhyw deulu nad oedd yn mynychu capel, hyd yn oed yn achlysurol. Y capel oedd canolfan diwylliant ac adloniant; yma y cynhelid eisteddfodau a chyngherddau, cyfarfodydd diwylliadol, ysgolion Beiblaidd a cherddoriaeth a dosbarthiadau Tonic Sol-ffa (Gamwt). Ar nos Lun cyntaf y mis cynhelid cyfarfod gweddi cenhadol a Seiat neu gyfarfod gweddi bob nos Iau; yn wir, yr oedd rhywbeth ymlaen bob noson o'r wythnos. Rhwng y ddau ryfel yr oedd llewyrch a hyder ym mywyd yr eglwys, digon o hyder mewn ambell i fan i ailadeiladu lleoedd o addoliad. Er enghraifft yn Ne Ceredigion, adnewyddwyd Twrgwyn yn 1932, Penmorfa yn 1939, Bethesda, Ponthirwaun yn 1935 a Blaenwenen yn 1938.

I raddau helaeth yr oedd y sefyllfa iachus yma i barhau tan ddiwedd y pum degau. Yn 1958, er enghraifft, gwelir bod gan y Methodistiaid Calfinaidd yn Ne Aberteifi 50 o gapeli gydag 17 cangen. Yr oedd 33 o'r addoldai dan ofal bugail. Cyn tua 1950 yr oedd capeli digon bychan fel Capel Ffynnon, Pen-sarn a Neuadd yn medru cynnal eu bugail eu hunain, gydag amryw o gapeli mwy fel y Tabernacl, Aberteifi yn medru cynnal bugail i wasanaethu mewn un eglwys yn unig. Hyd yn oed yn 1959 yr oedd 18 bugail llawn amser yn y rhanbarth ac yr oedd wyth o weinidogion a phregethwyr lleyg yn gwasanaethu'r capeli.

## DIRYWIAD

Erbyn dechrau'r chwedegau yr oedd arwyddion pendant fod dyddiau blin ar y gorwel. Yr oedd aelodaeth pob eglwys yn lleihau; Penmorfa gyda 162 o aelodau yn 1948, 122 yn 1960 a llai na chant yn 1970. Rhwng 1960 ac 1970 bu lleihad o 37 y cant mewn aelodaeth o gapeli Presbyteraidd y rhanbarth. Yr oedd yr ysgrifen ar y mur ac er bod gofalaeth Penmorfa a Bancyfelin yn ddigon hyderus i alw'r Parchedig D. J. Evans yn weinidog yn 1960, daeth yn fwy anodd bob dydd i gael y ddau ben llinyn ynghyd. Erbyn 1965 bu'n rhaid ymestyn yr ofalaeth i gynnwys Neuadd a Phen-sarn, yn gyntaf, ac yna Tan-y-groes a Watchtower yn ddiweddarach.

'*Gorfodir ni bellach*' meddai cyflwyniad i Flwyddlyfr 1973 '*i gydnabod methiant y Cyfundeb i sicrhau gofal bugail i'w holl eglwysi a derbyn y ffaith o ofalaeth di-fugail. Oni bydd yma ddeffroad ysbrydol yn ein plith gwaethygu a wna'r sefyllfa yn gyflym.*' Er gwaethaf geiriau optimistaidd ambell bregethwr, nid oes sôn am unrhyw adfywiad. Un arwydd nad yw pethau ddim yn dda yn y chwedegau oedd dirywiad yn y nifer o ysgolion Sul. Dyma golli plant a ieuenctid ac o flwyddyn i flwyddyn yr oedd aelodaeth nifer o gapeli yn mynd yn fwy oedrannus ac o fewn ychydig amser yr oedd nifer ohonynt yn cau eu hunain oherwydd bod y gynulleidfa wedi diflannu. Yn 1958, yr oedd ysgolion Sul yn 47 o gapeli'r Henaduriaeth. Yr oedd ynddynt 1,550 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac yr oedd 156 yn eistedd yr enwog Arholiad Sirol. Yn 1999, 282 yn unig a fynychai'r ysgol a dim ond mewn rhyw dri chapel y cynhaliwyd ysgol i oedolion. Oherwydd dyletswyddau a phob math o rialtwch Sabothol, yr oedd nifer gynyddol o'r boblogaeth yn peidio â mynychu gwasanaethau fel cynt. Yn raddol mewn llawer i gapel anghofiwyd yr oedfa nos Sul, a phrin y defnyddiwyd y capel ar nosweithiau'r wythnos. Roedd dirywiad yn y tir. Wedi ymddeoliad D. J. Evans yn 1982, cymerwyd gofal o Benmorfa a Bancyfelin gan y Parchedig Griffith Jones, a oedd eisoes yn fugail ar saith eglwys, tan ei ymddeoliad yn 1991. Bellach nid oes sôn am alw gweinidog.

## Y DIWEDD

Ers 1960 mae nifer o gapeli De Ceredigion wedi cau o un i un. Tybed pwy sy'n cofio am eglwysi Tan-y-bryn, Pant-y-bwlch, Llwyn y Groes, Capel Ffynnon, Neuadd, Pen-sarn, Ffos-y-ffin, Bancyfelin, Pen-rhiw, Tabernacl, Llandysul, Penuel, Cei Newydd, Waunifor a Watchtower? I'r gweddill sy'n dal ar agor mae'r aelodaeth wedi lleihau yn ddirfawr a phresenoldeb mewn oedfa yn warthus o isel.

Yn 1999 yn Ne Ceredigion, roedd

- 11 eglwys gydag aelodaeth o dan 30
- 14 eglwys gydag aelodaeth rhwng 31 a 50
- 51 eglwys gydag aelodaeth rhwng 51 a 100
- 6 eglwys gydag aelodaeth o dros 101

O ddifrif, a ellir meddwl am gynnal eglwys gyda llai na 30 aelod, a llawer o'r aelodau hynny yn gyndyn iawn i dalu'r cyfraniad y gofynnir amdano gan y Cyfundeb? Mae'r gost o gadw adeiladau, llawer ohonynt yn hen ac mewn cyflwr gwael, yn faen melin am wddf amryw o gapeli. Mae'r gost o wresogi a goleuo adeiladau enfawr yn aruthrol ac nid yw yswiriant adeiladau o'r fath yn rhad. Ychwaneger at hyn y ffaith fod nifer fawr o gapeli yn adeiladau un drws heb un math o ddihangfa, pan fo cyfraith gwlad yn mynnu safonau diogelwch o'r radd flaenaf mewn adeiladau cyhoeddus.

Mewn rhanbarth sydd yn ddeniadol i nifer fawr o estroniaid o'r dinasoedd sydd wedi ymsefydlu ym mhrydferthwch Ceredigion, mae lle i ofni am ddyfodol Cymreig ein cymunedau gwledig. Ni ŵyr y rhan fwyaf o'n hymfudwyr ddim am ddiwylliant na chrefydd eu bro fabwysiedig. Yn anffodus, mae llawer o frodorion yr ardaloedd gwledig a glan y môr wedi dilyn bywyd a diddordebau'r mewnfudwyr gan anghofio diwylliant cynhenid eu pobl eu hunain. Mewn oes faterol o fwynhau, lle mae'r pwyslais ar hamdden, nid oes bellach le i grefydd.

Nid yw'r holl resymau a roddir am leihad mewn crefydd – y mewnlifiad o estroniaid, marwolaethau aelodau oedrannus, na'r ffaith fod cyfran helaeth o bobl ifanc ardal wledig yn gorfod chwilio am waith y tu allan i'w bröydd genedigol – yn esbonio yn llawn y trai ar grefydd. Mae'n hollol glir bellach nad yw oedfaon crefyddol, nad ydynt wedi newid llawer ers y Diwygiad Methodistaidd yn y ddeunawfed ganrif, yn apelio dim i drwch y boblogaeth. Mae llawer, efallai, yn mynychu oedfaon gan eu bod yn gwneud hynny pan oeddent yn blant ac nid yw mynd i gapel yn ddim ond talu gwrogaeth i'n cyndeidiau a'n traddodiadau. I lawer, gorchwyl diflas yw mynd i wasanaeth ac nid oes gan gyfran helaeth o'r boblogaeth unrhyw frwdfrydedd na diddordeb yn yr hyn a roir ger eu bron. Efallai mai difaterwch sydd, bellach, yn nodweddiadol o fywyd cymdeithas. I lawer mae'n anodd dygymod â

threfn a ordeiniwyd ddwy fil o flynyddoedd a rhagor yn ôl. Efallai ei bod yn amhosibl credu mewn Creawdwr yn wyneb darganfyddiadau syfrdanol gwyddoniaeth yr ugeinfed ganrif. Wrth i ni ffarwelio â'r ganrif fwyaf rhyfelgar a chreulon yn hanes y byd, mae'n anodd credu mewn Duw Cariad.

J. GERAINT JENKINS
*Llandysul*